












# CRONFA BUDD CYMUNEDOL BRENIG WIND LTD ADRODDIAD BLYNYDDOL

MAE'R ADRODDIAD HWN YN YMDRIN Â GWEITHREDIAD Y GRONFA RHWNG HYDREF Y 1AF 2020 A MEDI'R 30AIN 2021

# BRENIG WIND LTD COMMUNITY BENEFIT FUND ANNUAL REPORT

THIS REPORT COVERS THE OPERATION OF THE FUND BETWEEN 1ST OCTOBER 2020 AND 30TH SEPTEMBER 2021

CADWYN Clwyd

Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

BRENIG WIND LTD

# CYNNWYS CONTENTS


| | TUDALEN / PAGE |
|---|---|
| Rhagair gan David Heelan – Brenig Wind Ltd<br>Foreword by David Heelan – Brenig Wind Ltd | 1 |
| Cyflwyniad<br>Introduction | 2 |
| Ymgysylltu â'r Gymuned, Marchnata a Chyfathrebu<br>Community Engagement, Marketing & Communications | 3 |
| Cerrig Milltir Allweddol Eleni<br>Key Milestones This Year | 5 |
| Dyfarnwyd grantiau yn ystod y 12 mis diwethaf<br>Grants Awarded in the last 12 months | 7 |
| Deilliannau ac Effaith Cronfa Brenig Wind Ltd<br>Brenig Wind Ltd Outputs & Impacts | 9 |
| Crynodeb o'r Grantiau<br>Summary of Grants | 11 |
| Incwm a Gwariant<br>Income & Expenditure | 16 |
| Atodiad A - Adroddiad Archwiliwr Annibynnol<br>Appendix A - Independent Examiners Report | 17 |
| Atodiad B - Meini Prawf y Gronfa<br>Appendix B - The Fund Criteria | 18 |

# RHAGAIR FOREWORD

Ers lansio Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd mae wedi cynorthwyo prosiectau'n uniongyrchol ledled ei maes budd ac mae'n gyfle gwerth chweil i gymunedau cefn gwlad. Mae Cadwyn Clwyd, y gweinyddwr cronfa leol, eisoes wedi dyfarnu £356,283 i 59 prosiect lleol yn ystod pum rownd ariannu i grwpiau lleol tuag at ystod o wahanol brosiectau ac wedi'u cynorthwyo i drosoli mwy fyth. Mae'n bleser mawr gennym ni weld ehangder ac ansawdd y prosiectau cymunedol y mae Brenig yn eu cefnogi ynghyd ag effaith gadarnhaol y gronfa ar y cymunedau hynny.

Since its launch the Brenig Wind Ltd Community Benefit Fund has directly helped projects across its area of benefit.  It's a fantastic opportunity for rural communities.  Cadwyn Clwyd, the local fund administrator, has already awarded £356,283 to 59 local projects in five rounds of funding to community groups for a range of different projects and helped them leverage even more. We're pleased to see the breadth and quality of community projects supported by Brenig, and the positive impact on those communities.

DAVID HEELAN

BRENIG WIND LTD

# CYFLWYNIAD INTRODUCTION

Mae Brenig Wind Ltd yn weithredol yn ardal Cyngor Cymuned Nantglyn a ward etholaethol Llanrhaeadr yng Nghinmeirch yng Nghyngor Sir Ddinbych.

Mae Brenig Wind Ltd yn cynnig cronfa budd cymunedol gwerth bron i £4 miliwn dros gyfnod o 25 mlynedd ac mae modd i gymunedau sy'n amgylchynu'r fferm wynt fanteisio arni. Mae'r fferm wynt, sy'n eiddo i Brenig Wind Ltd, yn weithredol ers Mawrth 2019 a chanddo 16 tyrbin sy'n cynhyrchu 2.35MW. Mae cyfanswm capasiti ynni wedi'i osod yn 37.6MW – sy'n ddigon i gynnal dros 30,000 o dai pob blwyddyn. Caiff y gronfa ei dyrannu i fentrau a phrosiectau cymunedol.

Caiff y gronfa ei gweinyddu gan Cadwyn Clwyd a Phanel Brenig Wind Ltd sy'n gyfrifol am yr holl benderfyniadau ynghylch sut caiff y cyllid ei ddyfarnu. Ymysg aelodau'r Panel mae:

Brenig Wind Limited is located in the Community Council area of Nantglyn and the electoral ward of Llanrhaeadr yng Nghinmeirch within Denbighshire County Council.

Brenig Wind Ltd provides a community benefit fund of almost £4 million over 25 years and is available for communities surrounding the windfarm. The windfarm owned by Brenig Wind Ltd became operational in March 2019 and has 16 turbines each of 2.35MW, giving a total installed capacity of 37.6MW – enough to power over 30,000 homes every year. The fund is distributed to local community projects and initiatives.

The fund is administered by Cadwyn Clwyd, all decisions on how funds are awarded are made by the Brenig Wind Ltd Panel. Panel members include:

| | |
|---|---|
| Llyr Jones | Cadeirydd ac Aelod Cymunedol \| Chairman & Community Member |
| Prys Ellis | Aelod Cymunedol \| Community Member |
| Geraint Lloyd | Aelod Cymunedol \| Community Member |
| Eleri Roberts | Aelod Trydydd Sector \| Third Sector Member |
| Sian Rogers | Aelod Trydydd Sector \| Third Sector Member |
| Elen Edwards | Aelod Sector Gyhoeddus \| Public Sector |
| Fran Rhodes | Aelod Sector Gyhoeddus \| Public Sector |
| Lowri Owain | Ymgynghorydd a Gweinyddwr y Gronfa \| Advisor & Fund Administrator |
| Helen Williams | Ymgynghorydd a Gweinyddwr y Gronfa \| Advisor & Fund Administrator |

Hoffai Brenig Wind Ltd a Cadwyn Clwyd estyn diolch i aelodau'r panel am eu harweiniad ac ymroddiad i sicrhau llwyddiant y gronfa yn ystod y 12 mis diwethaf.

Brenig Wind Ltd and Cadwyn Clwyd wish to thank the panel members for their guidance and commitment to ensuring the successful delivery of the fund over the last 12 months.

# YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED, MARCHNATA A CHYFATHREBU
# COMMUNITY ENGAGEMENT, MARKETING AND COMMUNICATIONS

Mae Cadwyn Clwyd a'i mudiadau partner yn parhau i ymwneud gyda'r gymuned i ddatblygu prosiectau. At hyn, mae Cadwyn Clwyd yn cydweithio'n agos gyda Swyddogion Datblygu Cymunedol Awdurdod Lleol yng Nghyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gefnogi cymunedau i ddatblygu prosiectau ac ymgeisio ar gyfer cyllid Brenig yn ogystal â chynorthwyo gydag adnabod a throsoli cyllid cyfatebol.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, bu i Cadwyn Clwyd gynnal dau ddigwyddiad galw heibio rhithiol ym mis Chwefror ac Awst 2021. Nod y digwyddiadau hyn oedd cynnig cyngor ac arweiniad i grwpiau oedd yn dymuno cyflwyno ceisiadau ar gyfer cyllid Brenig. Roedd y digwyddiadau'n boblogaidd dros ben a bu i'r ymgeiswyr arfaethedig dderbyn cyngor ac arweiniad ar sut i fanteisio ar gefnogaeth gan Brenig.

Ar y cyd â phartneriaid Cadwyn Clwyd, Ceidiog Communications, mae ymgyrch i'r wasg parhaus ar waith gyda datganiadau i'r wasg sy'n amlygu'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu a'r cyfleoedd ynghlwm â'r gronfa. Mae Clwb Pêl Droed Rhuthun a Beiciau Trydan Hiraethog eill dau wedi'u crybwyll fel prosiectau sydd wedi derbyn cefnogaeth. Cafodd y straeon eu cyhoeddi ar 10 gwefan newyddion a phapurau newydd megis North Wales Weekly News, Daily Post a'r Denbighshire Free Press. Ym mis Gorffennaf 2021, cafodd Clwb Rygbi Rhuthun a Brenig Wind Ltd eu hyrwyddo ar y Teledu fel rhan o adroddiad BBC Newyddion Cymru ar gronfeydd Budd Cymunedol Ffermydd Gwynt yng Nghymru. At hyn, fe gafodd y prosiect 'Nerth dy Ben' ei grybwyll ar raglen HENO ar S4C.

Yn ogystal, fe gafodd y bedwaredd a'r bumed rownd ariannu, y prosiectau sydd wedi derbyn grantiau a straeon newyddion da eu hyrwyddo ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol a gwefan Cadwyn Clwyd. Cafodd y rowndiau ariannu eu rhannu mewn e-byst uniongyrchol at gynghorau cymuned, grwpiau cymunedol, mudiadau partner a rhanddeiliaid.









Cadwyn Clwyd and its partner organisations continue to engage with the local community in the development of projects. Cadwyn works closely with Local Authority Community Development Officers in both Denbighshire CC and Conwy CBC to support communities to develop projects and apply for Brenig funds as well as assisting to identify and lever match funding.

During the last 12 months, Cadwyn Clwyd held two virtual funding drop-in events to provide advice and guidance to groups wishing to apply for Brenig funds. These were held in February 2021 and August 2021 and were well attended with potential applicants receiving advice and guidance on accessing support from Brenig.

In partnership with Cadwyn Clwyd's associates Ceidiog Communications, an on-going press campaign has been undertaken with press releases highlighting the funding awarded and the opportunities offered by the fund. Both Ruthin Football Club and Hiraethog Electric Bikes have featured as projects receiving support. The stories appeared on 10 news websites and newspapers such as North Wales Weekly News, Daily Post and the Denbighshire Free Press. In July 2021, Ruthin Rugby Club and Brenig Wind Ltd received TV coverage on a BBC News Wales report on Windfarm Community Benefit funds in Wales and the 'Nerth dy Ben' project received coverage on S4C's HENO programme.

Communication has also been undertaken through Cadwyn Clwyd's social media channels and website to highlight the fourth and fifth funding rounds, projects awarded grants and good news stories. The funding rounds have been communicated via direct emails to community councils, community groups, partner organisations and stakeholders.



# CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL ELENI
# KEY MILESTONES THIS YEAR

**IONAWR / JANUARY 2021**

Lansio Rownd 4, gan gyhoeddi'r ceisiadau a'r meini prawf ar wefan Cadwyn Clwyd.

Round 4 opened, with applications & criteria publicised on the Cadwyn Clwyd website.

**CHWEFROR / FEBRUARY 2021**

Datganiad i'r wasg wedi'i rannu a'i gyhoeddi yn y Daily Post, Denbighshire Free Press, North Wales Weekly News, a ffynonellau ar-lein gan gynnig manylion am gyfleoedd y gronfa. Cafodd yr wybodaeth hefyd ei hyrwyddo'n eang ar gyfryngau cymdeithasol, mewn e-byst uniongyrchol a thrwy rwydweithiau mudiadau partner.

Press release distributed and featured in Daily Post, Denbighshire Free Press, North Wales Weekly News, online sources detailing opportunities of the fund. Also, information widely distributed via social media, direct email and partner organisations' networks.

**CHWEFROR / FEBRUARY 2021**

Digwyddiad galw heibio rhithiol i gynnig cyngor ac arweiniad ynghylch ymgeisio am gyllid Brenig.

Virtual drop in event held to provide advice and guidance on applying for Brenig funds.

**MAWRTH / MARCH 2021**

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau grant rownd 4 ar Fawrth y 1af – derbyniwyd 21 cais gyda chyfanswm y ceisiadau grant yn £276,364.80.

Closing date for round 4 grant applications on 1st March - 21 applications received with a grant request value of £276,364.80.

**MAWRTH / MARCH 2021**

4ydd cyfarfod panel wedi'i gynnal i asesu ceisiadau. Brenig Wind Cyf yn cymeradwyo'r ceisiadau prosiect a Cadwyn Clwyd yn anfon y llythyrau cynigion at yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ogystal â hysbysu'r ymgeiswyr aflwyddiannus.

4th panel meeting held to assess applications. Brenig Wind Ltd sign-off project applications and offer letters sent by Cadwyn Clwyd to successful applicants together with informing unsuccessful applicants.

**MEHEFIN / JUNE 2021**

Lansio Rownd 5, gan gyhoeddi'r ceisiadau a'r meini prawf ar wefan Cadwyn Clwyd.

Round 5 opened, with applications & criteria publicised on the Cadwyn Clwyd website.

**GORFFENNAF / JULY 2021**

Datganiad i'r wasg wedi'i rannu a'i gyhoeddi yn y Daily Post, Denbighshire Free Press, North Wales Weekly News, a ffynonellau ar-lein gan rannu manylion am gyfleoedd y gronfa. Cafodd yr wybodaeth hefyd ei rhannu'n eang ar gyfryngau cymdeithasol, mewn e-byst uniongyrchol a thrwy rwydweithiau mudiadau partner.

Press release distributed and featured in Daily Post, Denbighshire Free Press, North Wales Weekly News, online sources detailing opportunities of the fund. Information widely distributed via social media, direct email and partner organisations' networks.

**AWST / AUGUST 2021**

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau grant rownd 5 ar Awst y 25ain – derbyniwyd 9 cais gyda chyfanswm y ceisiadau grant yn dros £86,063.00.Cynhyrchu a dosbarthu newyddlen flynyddol gyda manylion am effaith gadarnhaol Cronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Cyf.

Closing date for round 5 grant applications on 25th August - 9 applications received with a grant request value of over £86,063.00. Annual newsletter produced and distributed detailing the positive impact of Brenig Wind Ltd Community Benefit Fund.

**MEDI / SEPTEMBER 2021**

5ed cyfarfod panel wedi'i gynnal i asesu ceisiadau. Brenig Wind Cyf yn cymeradwyo'r ceisiadau prosiect a Cadwyn Clwyd yn anfon y llythyrau cynigion at yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ogystal â hysbysu'r ymgeiswyr aflwyddiannus.

5th panel meeting held to assess applications,
Brenig Wind Ltd sign-off project applications and offer letters sent by Cadwyn Clwyd to successful applicants together with informing unsuccessful applicants.

Er gwaethaf heriau'r pandemig, bu i nifer sylweddol gyflwyno ceisiadau ar gyfer y gronfa gyda phrosiectau wedi'u cefnogi yn parhau i fod ar waith ar lawr gwlad ac mewn cymunedau. Mae'r prosiectau'n amrywio'n sylweddol ac maen nhw'n cyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u hadnabod gan y gymuned fel rhan o'r ymgynghoriad ar gyfer y gronfa.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, fe lansiwyd rownd 4 a 5 y gronfa ac fe ddyfarnwyd cyfanswm o £88,411 i grwpiau.

Despite the challenges of the pandemic, the fund has received a significant number of applications with supported projects still being delivered on the ground and in local communities. The range of projects are varied and delivers against the priorities identified by the community as part of the consultation for the fund.

During the last 12 months, round 4 and round 5 of the fund was launched with a total of £88,411 awarded to groups.

# DYFARNWYD GRANTIAU YN YSTOD Y 12 MIS DIWETHAF

# GRANTS AWARDED DURING THE LAST 12 MONTHS

## ROWND 4 - MAWRTH 2021 | ROUND 4 - MARCH 2021

| GRŴP / GROUP | CYFANSWM / AMOUNT | DISGRIFIAD / DESCRIPTION |
|---|---|---|
| Prosiect Llifoleuadau Clwb Pêl Droed Tref Rhuthun<br>Ruthin Town FC Floodlight Project | £10,000 | Llifoleuadau<br>Floodlights |
| Clwb Rygbi Dinbych<br>Denbigh Rugby Club | £8,000 | Gwella cyfleusterau<br>Facility Improvements |
| Clwb Bowlio Dinbych<br>Denbigh Bowls Club | £1,073 | Adfer y Lawnt Fowlio 2021<br>Bowling Green Renovation 2021 |
| Ailwampio Cae Chwarae Llanfihangel GM<br>Llanfihangel GM Playground Refurbishment | £5,889 | Ffens Newydd<br>New Fence |
| Neuadd Goffa Plwyf y Bylchau<br>Bylchau Parish Memorial Hall | £10,000 | Ailwampio'r Gegin<br>Kitchen Refurbishment |
| Canolfan Gwytherin<br>Gwytherin Centre | £6,240 | Ymgynghoriad a dylunio ar gyfer gwaith cyfalaf<br>Consultancy & design for capital works |
| Neuadd y Plwyf, Llannefydd<br>Llanefydd Parish Hall | £20,000 | Estyniad a gwaith moderneiddio<br>Extension and modernising work |
| Clwb Cymunedol Dewiniaid Digidol Pentrefoelas<br>Pentrefoelas Digital Wizards Community Club | £4,288 | TChG, gliniaduron ac iPads<br>ICT, laptops and iPads |

**CYFANSWM ROWND 4 / TOTAL ROUND 4 = £65,490**





# ROWND 5 - MEDI 2021 | ROUND 5 - SEPTEMBER 2021

| GRŴP / GROUP | CYFANSWM / AMOUNT | DISGRIFIAD / DESCRIPTION |
|---|---|---|
| Ysgol Feithrin Ysgol Llansannan<br>Feithin Llannsanan School | £8,000 | Gosod tai bach a sinciau newydd i blant oed meithrin ynghyd â gosod drws a llawr newydd<br>Install nursery age toilets and bowls and install a new door and floor |
| Adnewyddu'r Parc – Cyfarpar Chwarae Llanrhaeadr Bro Cinmeirch<br>Renewal of Park - Llanrhaeadr Bro Cinmeirch Play Equipment | £6,000 | Gosod cyfarpar chwarae newydd /uwchraddio'r cyfarpar chwarae<br>Replacing / Upgrading Play Equipment |
| Di-wifr yng Nghymru – sgyrsiau Cymraeg a Saesneg ar-lein 'Cwmulus'<br>Wirless in Wales - online Welsh English talks 'Cwmulus' | £525 | Costau Cyfieithu ar y pryd<br>Simultaneous translation costs |
| Byw'n Iach Llanefydd - Beiciau Trydan<br>Llannefydd Healthy Living - Electric Bikes | £8,396 | Llannefydd Healthy Living - Electric Bikes<br>Purchase electric bikes |

**CYFANSWM ROWND 5 / TOTAL ROUND 5 = £22,921**



# DEILLIANNAU AC EFFAITH
# OUTPUTS & IMPACTS

Yn ystod y 12 mis diwethaf, bu i Gronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd, Cadwyn Clwyd a'r Panel Grantiau Brenig sefydlu a chyflawni rhaglen grantiau llwyddiannus. Ers ei lansio, mae'r Gronfa Budd Cymunedol wedi cefnogi ystod eang o brosiectau cymunedol yn y dalgylch. Fe lwyddodd y Gronfa i gyflawni'r canlynol **rhwng Hydref 2020 a Medi 2021:**

During the last 12 months, the Brenig Wind Ltd Community Benefit Fund, Cadwyn Clwyd and the Brenig Grants Panel have ensured the successful delivery of the grants programme. The Community Benefit Fund has supported a wide range of community projects in the catchment area and has delivered the following **between October 2020 and September 2021:**

**£88,411**

£88,411 o Gronfa Brenig i gefnogi prosiectau a grwpiau cymunedol
£88,411 Brenig Fund awarded to support projects and community groups

**12**

Cefnogi 12 o Grwpiau / Prosiectau Cymunedol
12 Community Groups / Projects supported

**£800,000**

£800,000 cyd-ariannu
£800,000 co-financed



# DEILLIANNAU AC EFFAITH
# OUTPUTS & IMPACTS

Bu i'r gronfa gynorthwyo gyda sawl thema wedi'u hadnabod yn yr ymgynghoriad cymunedol fel a ganlyn:

- Cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol cymunedol
- Clybiau a Gweithgareddau Cymdeithasol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (e.e. clybiau ar ôl ysgol, clybiau gofal plant cymunedol)
- Datblygu a chefnogi mentrau cymdeithasol (e.e. siop gymunedol, tafarn gymunedol, digwyddiadau)
- Buddsoddi mewn Cyfleusterau Cymunedol
- Clwb Chwaraeon Cymunedol a Maes Chwaraeon
- Yr Amgylchedd, cyfoeth naturiol a bioamrywiaeth
- Iechyd a Lles
- Ynni adnewyddadwy cymunedol a gweithrediadau lleihau carbon
- Cefnogaeth ar gyfer grwpiau a rhwydweithiau busnes

Mae'r gronfa eisoes yn effeithio'n gadarnhaol ar y gymuned gydag unigolion a grwpiau'n cydnabod gwir wahaniaeth yn eu hardal yn sgil y gronfa.

The fund has delivered across a number of themes identified within the community consultation as follows:

- Support for community social activities
- Clubs & Social Activities for Children and Young People (e.g. after schools clubs, community childcare clubs)
- Developing and supporting social enterprises (e.g. community shop, community pub, events)
- Investment in Community Facilities
- Community Sports Club and Recreation
- Environment, natural resources and bio-diversity
- Health and Wellbeing
- Community renewable energy and carbon reduction actions
- Support for business groups and business networks

The fund is having a positive impact on the local community with individuals and groups clearly acknowledging the difference the fund is making to their area.





# CRYNODEB O'R GRANTIAU
# SUMMARY OF GRANTS

Yr holl grantiau wedi'u rhannu fesul cais gan ardaloedd Cynghorau Cymuned o fewn dalgylch 15km Brenig.

The total Grants split by applications from Community Council areas within the 15km Brenig catchment area.






Prosiect wedi'u cefnogi wedi'u hamlygu fesul Thema.

Project supported illustrated by Theme.








# DEILLIANNAU AC EFFAITH

## OUTPUTS & IMPACTS

Mae plant y fro hefyd yn defnyddio Cae Chwarae Clocaenog yn ogystal â phlant y pentref. Yn wahanol i gaeau chwarae cymunedol eraill, mae Cae Chwarae Clocaenog yn elusen o dan ofal grŵp bach o wirfoddolwyr o'r pentref. Dydy'r cae chwarae ddim yn derbyn unrhyw gyllid Cyngor Cymuned nac ychwaith gan y Llywodraeth. Mae'r grŵp felly yn dibynnu'n fawr ar godi arian a chyfraniadau i gynnal a chadw a thrwsio cyfarpar sydd wedi torri. Bu hi'n anodd iawn mynd ati i godi arian i gynnal a chadw'r parc yn sgil COVID-19. Rydw i felly, fel Cadeirydd prosiect Cae Chwarae Clocaenog yn hynod ddiolchgar am gefnogaeth ariannol Brenig Wind.

Bu i'r grant ein cynorthwyo i brynu cyfarpar newydd yn lle hen gyfarpar oedd wedi torri a'i gondemnio er mwyn i blant eu mwynhau am flynyddoedd maith. Unwaith eto mae gennym ni gyfleuster addas i'w bwrpas anhygoel y gallai pawb ei fwynhau ac mae hynny gyda diolch i Fferm Wynt Brenig.

Clocaenog Playground is used not only by the village children, but also children from surrounding villages. Unlike other community playgrounds, Clocaenog's Playground is a charity run by a small group of volunteer's within the village. It doesn't receive any government or Community Council funding and so relies heavily on fundraising and donations to maintain and replace broken equipment. COVID-19 has made raising funds to maintain the park very difficult, so as Chair of the Clocaenog Playground project, I am extremely grateful to receive the financial support of the Brenig Wind.

The grant has enabled us to replace broken and condemned equipment with new equipment for the children to play with for many years to come. We now once again have an amazing fit for purpose facility for all to use and that's all thanks to the Brenig Wind Farm.

**Judie Starling –** Cadeirydd Lle Chwarae Clogaenog / Chair Clocaenog Playground

Bu i gyllid Brenig Wind wneud gwahaniaeth aruthrol i'r clwb. Mae'n edrych yn anhygoel – dyma'r tro cyntaf inni gael llifoleuadau ac fe fyddan nhw'n barod ar gyfer cychwyn y tymor newydd.

The Brenig Wind funding has made a massive difference to the club. It's looking amazing here – we've never had floodlights before but they'll be ready for the start of the new season.

**Andy Edwards** – Cadeirydd Clwb Pêl-droed Tref Rhuthun / Ruthin Town Football Club Chairman

Mae’r arian dderbyniodd Neuadd Goffa Plwyf y Bylchau, yn Groes wedi bod yn hollbwysig i godi safon y cyfleusterau sydd gennym yn y neuadd. O ganlyniad i’r nawdd, mae llawr bloc pren wedi ei lanhau a’i drin, ac mae llawr y cyntedd wedi ei godi a’i adnewyddu i safon uchel. Mae sglein yn yr adeilad erbyn hyn ac mae’r pwyllgor a’r gymuned leol yn ddiolchgar iawn am y cyfraniad ariannol i wella’r ddarpariaeth sydd gennym. Edrychwn ymlaen i gychwyn ar y cam nesaf yn fuan, sef adnewyddu'r gegin. Drwy wneud y gwelliannau hanfodol hyn, bydd y neuadd bentref yn addas i'w llogi ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau.

The funds that Bylchau Parish Hall, in Groes has received has been vital in improving the quality of facilities that we have in the hall. As a result of the fund, the wood block floor has been cleaned and treated, and the foyer floor has been raised and refurbished to a high standard. The building now has a new lease of life, and the committee and local community are very grateful for the financial contribution that has enabled us to improve our provisions. We look forward to starting the next step of the process soon, which is to refurbish the kitchen. By undertaking these vital improvements, the Parish Hall will be suitable to be hired for a wide range of activities.

**Meinir Jones** - Aelod o Pwyllgor Neuadd y Plwyf Bylchau / Committee Member - Bylchau Parish Hall

Dwy flynedd yn ôl, aeth y Clwb ati gyda phrosiect i lefelu ac adeiladu cynllun draenio ar y cae hyfforddi wedi 40 mlynedd o ddefnydd. I gyd-fynd â’r buddsoddiad hwn, fe ddyluniwyd cynllun llifoleuadau LED a fyddai’n fodd i’r Clwb ddefnyddio’r cyfleuster drwy gydol y flwyddyn. Bydd hefyd modd i’r gymuned ehangach fanteisio ar y cyfleuster er amryw ddefnyddiau. Heb gymorth y gronfa Brenig ac eraill, byddai wedi bod yn amhosib inni gyflawni’r gwaith. Rydym yn ddiolchgar iawn o weld cefnogaeth o’r fath i fentrau lleol a fyddai’n ei dro yn gwella bywydau pobl wrth inni, gobeithio, roi’r pandemig y tu cefn inni ac edrych tua’r dyfodol.

Two years ago, the Club embarked on a project to level and construct a drainage scheme on the training ground after some 40 years of use. To complement this investment an LED floodlight scheme was designed which will enable the Club to use the facility throughout the year and offer the facility to the wider community for multipurpose use. Without assistance from the Brenig fund and others, this simply would not have been possible and we are very grateful to see such support for local initiatives which will enhance the lives of people as we hopefully emerge from the pandemic.

**Walter Roberts** - Clwb Rygbi Dinbych / Denbigh Rugby Club

Yn sgil derbyn y grant bu modd inni brynu ein hysgraffiniwr ein hun a mynd ati i wella ansawdd y lawnt fowlio. Rydym yn hynod ddiolchgar am y grant a heb y cyllid hwnnw byddem ni'n gorfod parhau i logi cyfarpar gan glybiau eraill. Mae meddu ar ein peiriant ein hunain yn golygu bod modd inni ei ddefnyddio pryd bynnag mae ei angen.

Having our own scarifier has enabled us to improve the quality of the bowling surface. We are extremely grateful for the grant which was used to purchase the machine. Without the grant we would still be loaning equipment from other clubs. Having our own machine means we have access whenever required.

**Abigail Wynne-Jones** - Cadeirydd Clwb Bowlio Dinbych / Chairperson Denbigh Bowls Club

Mae prosiect adnewyddu ac estyn neuadd bentref Llannefydd wedi cael ei gefnogi gan Cronfa Budd Cymunedol Brenig i darparu cyfleusterau modern ac addas wedi i'r gwaith adnewyddu gael ei gwblhau, gan greu adeilad clyd a chyfforddus ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau cymunedol. Bydd cegin fodern, lifft a thoiledau addas yn gwneud y neuadd yn fwy hwylus i'w defnyddio a bydd adnoddau newydd yn galluogi'r gymuned i gynyddu'r gweithgareddau a geir yn lleol. Rydym yn hynod ddiolchgar i Brenig Wind Ltd.

Llannefydd Village Hall's refurbishment and extension project has been supported by the Brenig Community Benefit Fund to provide modern and suitable facilities following the completion of the refurbishment work and creating a comfortable building for meetings and community events. A modern kitchen, lift and suitable toilets will make the Hall much more convenient to use, with the new resources enabling the community to increase the activities that are available locally. We are very grateful to Brenig Wind Ltd.

**Gwyneth Griffiths** - Neuadd y Plwyf Llannefydd / Llannefydd Parish Hall

# INCWM A GWARIANT
# INCOME AND EXPENDITURE

Mae'r ffigurau isod yn ymwneud â chyllid y gronfa am y 12 mis diwethaf, rhwng 1 Hydref 2020 a 30 Medi 2021.

The figures below relate to the fund's finances for the last 12 months, from 1st October 2020 to 30th September 2021.

| | |
|---|---|
| Gweddill Agoriadol / Opening Balance | £dim / £nil |
| **Incwm / Income** | |
| Allocation for grants agreed payment pending carried forward Sept20 | £ 88,339.20 |
| Brenig Wind Ltd - Grantiau / Grants | £137,020.00* |
| Costau Gweinyddol Cadwyn Clwyd Admin Costs | £ 15,224.00* |
| ***Cyfanswm yr Incwm / Total Income*** | **£240,583.20** |
| **Gwariant ar y Grantiau / Expenditure on Grants** | |
| Grantiau wedi'u talu i Fudiadau Cymunedol<br>Grants paid to Community Organisations | |
| Grant payments paid rounds 1, 2 & 3 / Grant payments paid rounds 1, 2 & 3 | £ 62,412.95** |
| Grant payments paid rounds 4 & 5 / Grant payments paid rounds 4 & 5 | £ 58,665.23** |
| Grantiau wedi'u cytuno arnyn nhw ond heb eu talu eto<br>Grants agreed but not yet released | £ 55,288.95 |
| ***Cyfanswm y Gwariant / Total Expenditure*** | **£176,367.13** |
| **Costau'r Grant / Fund Expenses** | |
| Costau'r Gweinyddwr / Administrator costs | £ 15,224.00*** |
| *Cyfanswm Costau'r Gronfa / Total Fund Expenses* | **£ 15,224.00** |
| *Cyfanswm y cyllid oedd ar gael ar Fedi'r 30ain 2020*<br>*Funds to be allocated to round 6 as at 30 September 2021* | ***£ 48,992.07*** |

*Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bu i Brenig Wind Cyf gyflwyno un taliad grant i Cadwyn Clwyd (ar gyfer Rownd 4) gydag ail daliad wedi'i gronni (Rownd 5).
**Mae hyn yn cynnwys gwariant wedi'i dalu o gyfrif banc Cadwyn Clwyd rhwng Hydref y 1af 2020 a Medi'r 30ain 2021.
***Mae'r ffigwr 'Treuliau'r Gronfa' yn cynnwys gwariant ar Gysylltiadau Cyhoeddus, llogi ystafelloedd a phaned ac ati ar gyfer cyfarfodydd panel, placiau ariannu a sticeri.

*During this reporting period Brenig Wind Ltd made one grant payment to Cadwyn Clwyd (for Round 4) with a second payment accrued (Round 5).
**This includes expenditure defrayed from Cadwyn Clwyd bank account between 1st October 2020 and 30th September 2021.
***The 'Fund expenses' figure includes expenditure on PR, room hire and refreshment for panel meetings, funding plaques and stickers.

Ar gyfer y broses adrodd flynyddol, bu i Cadwyn Clwyd gomisiynu eu cyfrifydd penodedig Jones and Graham Cyfrifwyr yn Ninbych, i gynnal archwiliad annibynnol o gyllid y prosiect pob blwyddyn. Mae'r adroddiad wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

As part of the annual reporting, Cadwyn Clwyd has commissioned its appointed accountant, Jones and Graham Accountants in Denbigh, to undertake an independent examination of the project's finances on an annual basis. The report is included in Appendix A.

# ATODIAD A - ADRODDIAD ARCHWILIWR ANNIBYNNOL
# APPENDIX A - INDEPENDENT EXAMINERS REPORT

## Independent examiner's report on the Income & Expenditure report

**SECTION A. INDEPENDENT EXAMINER'S REPORT**

**REPORT TO THE MEMBERS/DIRECTORS OF: CADWYN CLWYD CYF**

**ON INCOME & EXPENDITURE REPORT FOR THE PERIOD: 01/10/2020 – 30/09/2021**

I report to the Directors on my examination of the Income and Expenditure report for the **Brenig Community Benefit Fund**
for the period from **1st October 2020 to 30th September 2021**

**Responsibilities and basis of report**

As the company's Directors, you are responsible for the preparation of the accounts (or Income & Expenditure Report).

I report in respect of my examination of the Project's Income and Expenditure Report and in carrying out my examination, I have followed all the applicable directions and guidelines.

**Independent Examiner's Statement**

I have completed my examination. I confirm that no material matters have come to my attention in connection with the examination which gives me cause to believe that in, any material respect:

- Proper and accurate accounting records were not kept
- the Income and Expenditure Report did not accord with the accounting records; or

I have no concerns and have come across no other matters in connection with the examination to which attention should be drawn in this report in order to enable a proper understanding of the accounts to be reached.

**SECTION B. DISCLOSURE (if examiner needs to highlight material matters of concern)**

I confirm there are no items or material matters of concern to be disclosed

| | |
|---|---|
| Independent Examiner's Name | Emyr Jones (Jones & Graham Accountants) |
| Independent Examiner's Signature |  |
| Date | 01 / 10 / 2021 |
| Relevant professional qualification or body | F.C.C.A |

# ATODIAD B - MEINI PRAWF Y GRONFA
# APPENDIX B - THE FUND CRITERIA

### Yr Ardal sy'n elwa

- Yr ardal sy'n elwa ydy'r cymunedau hynny yn Sir Ddinbych a Chonwy sy'n nes at safle Brenig Wind Ltd.
- Bydd cymunedau o fewn radiws 10km o Fferm Wynt Brenig yn ffurfio'r ardal sy'n elwa.
- Gall y gronfa gefnogi prosiectau y tu hwnt i'r radiws 15km cyhyd â'u bod yn gallu dangos sut allan nhw fod o fudd i gymunedau yn yr ardal 10km mewnol.
- Mae map o'r ardal sy'n elwa ar gael ar www.cadwynclwyd.co.uk

### The Area of benefit

- The area of benefit are those communities in Denbighshire and Conwy which are closest to the Brenig Wind Ltd site
- Communities within 10km radius from Brenig Windfarm will form the area of benefit
- Projects in the outer area of 15km radius may be supported, provided they clearly demonstrate how they can benefit communities in the inner 10km area
- A map of the area of benefit is available on www.cadwynclwyd.co.uk

### Trothwyon grantiau

- grant bach hyd at £10,000, a
- grant mawr o £10,000 i £50,000

### Grant thresholds

- a small grant up to £10,000, and
- a large grant £10,000 to £50,000

### Pwy all geisio?

- Grwpiau gwirfoddol, cymunedol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Mentrau cymdeithasol cyhyd â'u bod yn ddi-elw (gan gynnwys undebau credyd)
- Cydweithfeydd
- Busnesau Cymdeithasol
- Mentrau dan ofal y Gymuned
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant
- Cwmnïau buddiant cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu)
- Elusennau
- Mudiadau trydydd sector

### Who can apply?

- Voluntary, community groups
- Community Councils / Town Councils
- Social enterprises provided they operate on a not-for-profit basis (including credit unions)
- Co-operatives
- Social firms
- Community owned enterprises
- Companies limited by guarantee
- Community interest companies and development trusts
- Charities
- Third sector organisations

## Pa fath o brosiect gallwn ni ei ariannu?

- Cludiant cymunedol
- Manteisio ar wasanaethau
- Cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol cymunedol
- Cynhwysiant digidol (e.e. band eang, signal ffôn)
- Manteisio ar waith (e.e. drwy weithio o adref neu gysylltiadau cludiant gwell)
- Datblygu a chefnogi mentrau cymdeithasol (e.e. siop gymunedol, tafarn gymunedol) cyhyd a'u bod yn rhai di-elw
- Datblygu a chefnogi partneriaethau busnes lleol (e.e. grwpiau twristiaeth, grwpiau amaethyddol a chynhyrchwyr bwyd lleol) cyhyd â'u bod yn medru dangos budd amlwg i'r gymuned ehangach
- Cynnal a chadw a gwella amgylchedd naturiol yr ardal er budd i'r gymuned
- Cynnal a chadw a gwella safon amgylchedd adeiledig yr ardal (gan gynnwys treftadaeth yr ardal)
- Cefnogi a datblygu sector twristiaeth / hamdden yr ardal
- Cefnogaeth ar gyfer mentrau iaith Gymraeg a'r diwylliant Gymraeg
- Cefnogaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yn yr ardal sydd o dan ofal y gymuned
- Prosiectau ynni effeithlon sydd o fudd i'r gymuned ehangach
- Prosiectau ysgol e.e. clybiau ar ôl ysgol, chwaraeon ac ati

## What type of project can be funded?

- Community transport
- Access to services
- Support for community social activities
- Digital Inclusion (e.g. broadband, mobile coverage)
- Access to employment (e.g. through working from home or better transport links)
- Developing and supporting social enterprises (e.g. community shop, community pub) provided they are run not for profit
- Developing and supporting local business partnerships (e.g. tourism groups, agriculture groups, local food producers) provided they can demonstrate a clear benefit to the wider community
- Maintain and improve the area's natural environment for community benefit
- Maintain and improve the quality of the area's built environment (including heritage)
- Support and develop the local tourism / recreation sector
- Support for Welsh language and culture initiatives
- Support for community-led small-scale renewable energy in the area
- Energy efficiency projects which benefit the wider community
- School projects e.g. after school clubs, sport activities etc

## Contact details / Contact details

Cadwyn Clwyd. Llys Owain, Stryd y Bont, Corwen, LL21 0AH
T: 01490 340500 E: brenig@cadwynclwyd.co.uk

www.cadwynclwyd.co.uk/brenig

@cadwynclwyd

@CadwynClwyd